# LC1105

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw uwchraddio ffigurau penodol sy’n cael eu defnyddio i gyfrifo’r hawl i beidio â thalu taliadau ac i gael ad-daliad treuliau teithio, a gwneud nifer o ddiwygiadau sy’n gysylltiedig â hynny. Mae’r Rheoliadau’n gwneud hyn drwy wneud nifer o ddiwygiadau pellach i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 ( Rheoliadau 1988), a gafodd eu gwneud yn uniaith Saesneg.

### Rheol Sefydlog 11.7

Mae un pwynt wedi’i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae testun Saesneg rheoliad 6(2)(j)(v) yn dechrau ag "in the entry modifying paragraph 7 substitute". Mae’r testun Cymraeg yn defnyddio "rhodder" [insert] yn hytrach nag ymadrodd sy’n cyfateb i "substitute". Dylai’r ddau destun fod yn gyson, a byddai defnyddio "for" yn hytrach na "in" ar ddechrau'r testun Saesneg yn gwneud y bwriad yn fwy eglur. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

### Sylwadau

Mae testun Cymraeg rheoliad 8 yn peri dryswch drwy ddefnyddio "Ni ddyroddir hysbysiad…ond yn unig" i gyfateb i "A notice … will only be issued". Byddai "Dyroddir … yn unig" yn llawer haws i'w ddilyn.

Yn ôl yn 2001, mewn perthynas â set flaenorol o Reoliadau diwygio (OS 2001/3322 (Cy.275), sylwodd y Pwyllgor Deddfau (LC341) –

> "Mae testun Rheoliadau 1988 bellach yn hynod o astrus gan fod diwygiadau gwahanol wedi'u gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr. Effaith hyn yw bod testun y rheoliadau fel y maent yn gymwys yng Nghymru yn sylweddol wahanol i'r testun sy'n gymwys yn Lloegr. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yn ychwanegu at y gwahaniaethau hyn.
>
> Gan hynny awgrymir y dylid ystyried gwneud ailddeddfiad sydd wedi'i gydgrynhoi o Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru."

Cafodd y sylwadau hyn eu hailadrodd yn LC686 a gafodd ei wneud mewn perthynas â'r set gyntaf o Reoliadau diwygio yn 2003. Cafodd set arall o ddiwygiadau eu gwneud y flwyddyn honno, dwy set arall yn 2004 ac erbyn hyn dyma Reoliadau 1988 yn cael eu diwygio eto byth.

Cafodd y ddeddfwriaeth yma ei chydgrynhoi yn Lloegr yn 2003, ac felly dim ond mewn perthynas â Chymru y mae Rheoliadau 1988, a'u diwygiadau niferus, yn gymwys. Dim ond yng Nghymru y maen nhw'n gymwys, ac eto i gyd dim ond yn Saesneg y maen nhw ar gael. Erbyn hyn, mae angen cydgrynhoi ar fyrder er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch ac yn fwy dealladwy yn y ddwy iaith.

Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor weld drafft cynharach a nodi nifer o fân bwyntiau sydd wedi'u diwygio yn y drafft terfynol yma.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 21 Mehefin 2005